# Adolygiad Gwella Ansawdd o Brifysgol Aberystwyth

## Yr Adroddiad Canlyniadau

**Ebrill 2022**

## Cynnwys


**Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd ........ 1**
**Yr adolygiad hwn ........ 1**
**Ynghylch Prifysgol Aberystwyth ........ 2**
**Y beirniadaethau am Brifysgol Aberystwyth ........ 3**
Y canmoliaethau ........ 3
Y cadarnhadau ........ 3
Yr argymhellion ........ 3
**Rhagor o wybodaeth ........ 4**


*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

## Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1]
Ym mlwyddyn academaidd 2021-22, roedd cwmpas yr Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar faterion sicrhau ansawdd, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i'r gofynion am sicrwydd ansawdd allanol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA adendwm i Lawlyfr yr Adolygiad Gwella Ansawdd sy'n esbonio'r addasiadau i weithrediad y dull adolygu. Yn 2021-22, mae cyfle i ddarparwyr ymgysylltu â QAA ar wahân mewn perthynas â materion gwella ansawdd.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Canlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu ar-lein rhwng 25 a 27 Ebrill 2022. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Mrs Claire Blanchard
- Yr Athro Diane Meehan
- Miss Nina Di Cara (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth.
Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr.

Yn yr adroddiad hwn, ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r feirniadaeth drosfwaol gael ei mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd.

Gallwch weld y feirniadaeth drosfwaol ar gyfer yr adroddiad yma ar dudalen 4, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, cadarnhadau ac argymhellion.

Mae Adroddiad Technegol mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn.[3]
Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.
[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.
[3] Yr Adroddiad Technegol: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Aberystwyth

## Ynghylch Prifysgol Aberystwyth

Sefydlwyd y Brifysgol yn 1872 ac mae'n dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed eleni. Roedd y Brifysgol yn un o sefydliadau gwreiddiol Prifysgol Cymru yn 1893, ac yn 2007 cafodd ei phwerau dyfarnu graddau a'i theitl prifysgol ei hun, ac ers 2009 dyfernir graddau Prifysgol Aberystwyth i'w myfyrwyr. Heddiw, mae'n brifysgol ganolig ei maint sy'n weithredol mewn ymchwil ac yn cynnig amrywiaeth eang o feysydd astudio ar draws y dyniaethau, y celfyddydau creadigol a'r gwyddorau ffisegol, naturiol a chymdeithasol.

Cenhadaeth y Brifysgol yw cyflwyno addysg ac ymchwil sy'n ysbrydoli mewn amgylchedd cefnogol, creadigol ac eithriadol yng Nghymru. Mae Cynllun Strategol y Brifysgol ar gyfer 2018-23 yn nodi'r pum amcan trosfwaol canlynol: galluogi i'r myfyrwyr ddatgloi eu potensial; cefnogi ymchwilwyr i wneud ymchwil sy'n cael effaith o safon sydd ymysg y gorau yn y byd; cyfrannu'n sylweddol i Gymru a thu hwnt; bod yn brifysgol y bydd myfyrwyr yn dewis dod iddi o bob cwr o'r byd; a bod ag ymrwymiad i'r iaith Gymraeg ac i ddiwylliant Cymru.

Mae gan y Brifysgol 17 adran/ysgol/athrofa sydd wedi eu trefnu'n dair cyfadran ac sy'n cynnig amrywiaeth eang o feysydd astudio galwedigaethol ac academaidd ar draws y dyniaethau, y celfyddydau creadigol a'r gwyddorau ffisegol, naturiol a chymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 5,300 o fyfyrwyr israddedig llawn amser wedi eu cofrestru yn y Brifysgol, ynghyd â nifer fechan iawn o fyfyrwyr israddedig rhan amser. Mae ychydig dros 300 o fyfyrwyr ar raglenni ôl-raddedig a addysgir yn astudio'n llawn amser a 90 yn rhan amser, ac mae 250 o fyfyrwyr llawn amser wedi eu cofrestru ar gyfer graddau ymchwil. Mae tua 45 o'i myfyrwyr yn astudio o bell ar lefel israddedig a 650 yn astudio o bell ar lefel meistr. Y Brifysgol yw un o'r prif ddarparwyr addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ac mae oddeutu 775 o'i myfyrwyr llawn amser presennol yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae portffolio darpariaeth gydweithredol y Brifysgol yn weddol fach. Ar hyn o bryd, mae'n cynnig dwy radd ddeuol ar y cyd, ac mae ganddi dri threfniant etholfreinio, un trefniant dilysu, a nifer fechan o drefniadau partneriaeth gydweithredol gyda phartneriaid yng Nghymru a Tsieina.

Ymysg y datblygiadau allweddol a phwysig a wnaed gan y Brifysgol i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, ac i ateb anghenion yn y rhanbarth a'r cymunedau, oedd cyflwyno cymwysterau nyrsio o dan gontract Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n rhedeg hyd ddiwedd y ddegawd, a chyflwyno gradd filfeddygol ar y cyd â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol ynghyd â chynlluniau gradd cysylltiedig mewn Biowyddorau Milfeddygol.

Yn yr adolygiad blaenorol gan QAA yn 2016, rhoddwyd pum argymhelliad ac un cadarnhad, a nodwyd un nodwedd o arfer da. Yr argymhelliad cyntaf oedd sicrhau cyfranogiad systematig y myfyrwyr fel partneriaid yn y broses o gymeradwyo ac adolygu rhaglenni, yn ogystal â gwella profiad y myfyrwyr, ac mae myfyrwyr wedi eu cynnwys erbyn hyn yn aelodau ar banelau sy'n dilysu cynlluniau ac yn eu hadolygu'n gyfnodol. Trwy gyflwyno templed newydd ar gyfer llawlyfrau rhaglen, aethpwyd i'r afael â'r ail argymhelliad, sef sicrhau y gweithredir dull cyson ar gyfer apeliadau academaidd o fewn ac ar draws yr athrofeydd, ac hefyd y pedwerydd argymhelliad, sef sicrhau cysondeb yr wybodaeth graidd a ddarperir i fyfyrwyr mewn llawlyfrau o fewn ac ar draws yr athrofeydd. Mae'r Brifysgol wedi cymryd nifer o gamau gweithredu mewn ymateb i'r trydydd argymhelliad, sef sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn derbyn hyfforddiant addas cyn ymgymryd ag addysgu ac asesu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cyflwyno cofrestr ganolog o'r myfyrwyr sy'n addysgu, rhaglen hyfforddi sydd wedi ei hachredu gan Advance HE ar lefel Cymrawd Cyswllt, a chymeradwyo fersiwn o Siarter Cyflogaeth Uwchraddedigion NUS/UCU. Hefyd, mae'r Brifysgol yn cymryd rhan ar hyn o bryd mewn prosiect a ariennir gan CCAUC i adolygu polisïau ac arferion yn ymwneud â myfyrwyr ôl-raddedig sy'n addysgu. Yr argymhelliad olaf oedd atgyfnerthu a mynegi'n glir beth yw'r blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu ar lefel yr athrofeydd, ac aeth y Brifysgol i'r afael â hyn drwy gyflwyno cynllun gwella newydd yn 2017.

## Y beirniadaethau am Brifysgol Aberystwyth

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd, ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

### Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd nifer o ganmoliaethau, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y gefnogaeth sefydledig sydd ar gael yn hawdd i staff sy'n addysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i staff a myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg, ac mae hwn yn annog cyfranogaeth ac ymgysylltiad â'r iaith.

- Y ffordd y mae'r Brifysgol yn ymateb i'r anghenion cyflogadwyedd ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol drwy ddatblygu partneriaethau pwrpasol ac arloesol newydd.

- Y berthynas gefnogol a chydweithredol y mae'r Brifysgol yn ei datblygu gyda'i phartneriaid sy'n galluogi iddyn nhw gymryd rhan gyfartal yn y bartneriaeth.

### Y cadarnhadau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd nifer o gadarnhadau, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y rhaglen waith y mae'r Brifysgol yn ei dilyn i ddatblygu system ddigidol newydd a fydd yn sicrhau gwell goruchwyliaeth ar lefel sefydliadol o brofiadau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

- Y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau y cedwir manylebau rhaglenni'n gyfoes.

### Yr argymhellion

Mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn gwneud nifer o argymhellion.

- Sicrhau goruchwyliaeth effeithiol gan y Brifysgol ar y defnydd a wneir gan y staff a'r myfyrwyr o'r system tiwtoriaid personol a'u hymgysylltiad â'i gofynion.

- Gweithredu system i sicrhau goruchwyliaeth ar lefel y sefydliad ar y broses o gymeradwyo arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau gradd ymchwil.

- Sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn adborth ar asesiadau mewn da bryd yn unol â gofynion y Brifysgol.

## Rhagor o wybodaeth

Mae Adroddiad Technegol mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.

Mae'r adolygiad hwn a'i ganfyddiadau'n ymwneud â'r darparwr cyfan, ac nid yw'n rhoi gwybodaeth am raglenni astudio neu feysydd astudio unigol. I gael rhagor o wybodaeth am y rheiny, cysylltwch â'r darparwr neu ewch i'w wefan.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am QAA a'r Adolygiad Gwella Ansawdd ar wefan QAA.

**QAA2669 - R13106 - Gorffennaf 2022**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk